



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Adolygiad Llifogydd Arfordirol Cymru: Adroddiad Prosiect 10 - Argymhellion – 18, 43, 44, 45, 46 a 47

Cynnwys

Cyd-destun.....	3
Prosiect 10 – Cyflwyniad i Wytchwch Seilwaith	4
Methodoleg Prosiect 10	5
Crynodeb o ymatebion ymgynghoriad Prosiect 10.....	6
Argymhelliad 18:.....	6
Argymhelliad 43.....	9
Argymhelliad 44:.....	11
Argymhelliad 45:.....	13
Argymhelliad 46:.....	15
Argymhelliad 47:.....	16
Casgliadau Prosiect 10	17
Atodiad 1 – Holiaduron ymgysylltu Prosiect 10.....	18
Atodiad 2 – Aseiad gwytnwch seilwaith Prosiect 10.....	20

Cyd-destun

Yn dilyn y llifogydd arfordirol ddiwedd mis Rhagfyr 2013 a dechrau mis Ionawr 2014, gofynnodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i Gyfoeth Naturiol Cymru gynnal adolygiad dau gam o'r llifogydd arfordirol. Gofynnodd y Gweinidog i'r Adolygiad gael ei gynnal mewn cydweithrediad â phob Awdurdod Rheoli Risg yng Nghymru. Nododd Cam 2 yr Adolygiad hwn 47 o argymhellion i'w dilyn yn y dyfodol ac ym mis Ionawr 2015 cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru gynllun cyflawni yn amlinellu ffordd arfaethedig o roi sylw i bob argymhelliad. Cafodd Cyfoeth Naturiol Cymru gyfarwyddyd gan y Gweinidog i roi'r Cynllun Cyflawni ar waith ar y cyd yn 2015/16 gyda chyllid cefnogol a wnaed ar gael.

Mae 30 o'r argymhellion wedi cael eu pecynnu yn ddeg prosiect i adlewyrchu themâu cyffredin. Mae'r 17 argymhelliad sy'n weddill yn sefyll yn annibynnol ar y prosiectau hyn gydag arweinwyr unigol i'w datblygu.

Rhestrir y deg prosiect a'u themâu technegol bras isod:

- Prosiect 1 – Darogan Llifogydd a Chynllunio Arfordirol
- Prosiect 2 – Rhybudd rhag Llifogydd a Darogan Llifogydd
- Prosiect 3 – Cydnerthedd Cymunedol
- Prosiect 4 – Ymateb Gweithredol
- Prosiect 5 – Amddiffynfeydd Arfordirol
- Prosiect 6 – Set Ddata ac Archwilio Amddiffynfeydd Arfordirol Cenedlaethol
- Prosiect 7 – Archwiliad Sgiliau a Galluedd, a Rolau a Chyfrifoldebau
- Prosiect 8 – Adolygiad o Grwpiau Arfordirol
- Prosiect 9 – Addasu Arfordirol
- Prosiect 10 – Gwytnwch Seilwaith**

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar Brosiect 10 – Gwytnwch Seilwaith. Mae argymhellion 18, 43, 44, 45, 46 a 47 yn ffurfio Prosiect 10.

Yn y Cynllun Cyflawni, roedd Argymhelliad 18 wedi'i gynnwys ym Mhrosiect 4. Fodd bynnag, o ganlyniad i'w gysylltiadau â gwydnwch seilwaith, roedd gweithredu'n ymarferol yn gosod Argymhelliad 18 ym Mhrosiect 10 er mwyn sicrhau gwell effeithiolrwydd.

Prosiect 10 – Cyflwyniad i Wytchwch Seilwaith

Nod Prosiect 10 oedd adolygu gwytnwch darparwyr seilwaith a gweithredwyr cyfleustodau yng Nghymru i'r risg o lifogydd ac erydu arfordirol. Mae darparwyr seilwaith yn cwmpasu priffyrdd a rheilffyrdd. Mae darparwyr cyfleustodau yn cwmpasu dŵr (cyflenwi a charthffosiaeth), ynni (trydan a nwy) a chyfathrebu (sefydlog a symudol).

Mae'r prosiect yn cwmpasu chwe argymhelliad ac yn cwmpasu'r meysydd bras canlynol:

- Y broses o ymateb i ddigwyddiadau i reoli risg llifogydd ac erydu arfordirol ar gyfer gweithredwyr seilwaith a chyfleustodau, a'u cyfrifoldebau
- Rôl gweithredwyr seilwaith a chyfleustodau o ran cydlynu rhwng Awdurdodau Rheoli Risg mewn gweithrediadau dyddiol
- Rôl a chylch gorchwyl Grŵp Cyfleustodau Cymru
- Nodi meysydd o ddiddordeb cyffredin rhwng sefydliadau
- Ymchwilio i gynlluniau ar gyfer newid hinsawdd a chynllunio addasiad lleol
- Asesiad cenedlaethol o gynlluniau gwytnwch seilwaith.

Mae'r chwe argymhelliad wedi eu diffinio fel a ganlyn:

Rhif Argymhelliad	Testun yr Argymhelliad
18	Adolygu a phennu ffyrdd gwell o gynnwys gweithredwyr a rheolwyr seilwaith yn y broses o reoli digwyddiadau lle mae perygl o lifogydd arfordirol.
43	Adolygu a gwneud argymhellion ynglŷn â sut gall awdurdodau rheoli risg a gweithredwyr seilwaith a chyfleustodau gydweithio'n weithredol mewn modd mwy effeithlon ac effeithiol. Dylai hyn ystyried amrywiaeth o drefniadau gweithio er mwyn sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau'n glir rhwng partneriaid proffesiynol ac i gymunedau.
44	Adolygu a gwneud argymhellion os oes angen gwneud mwy i alluogi gweithredwyr seilwaith a chyfleustodau i gydweithio'n effeithiol a rhyngweithio â'i gilydd ar faterion sydd o ddiddordeb i'r naill ochr a'r llall. Gallai hyn gynnwys adolygu rôl a chylch gwaith Grŵp Cyfleustodau Cymru, ac opsiynau eraill.
45	Annog a chefnogi'r gwaith o ddatblygu rhaglenni gwaith i gynyddu gwytnwch seilwaith ac asedau cyfleustodau. Rhaid i'r rhain gyd-fynd â chynlluniau addasiad y gymuned leol. Adolygu, lle bo'n briodol, i weld a oes rhwystrau rheoleiddiol i atal y broses hon o addasu, a dynodi gwelliannau rheoleiddiol a allai helpu addasiad.
46	Adolygu a gwerthuso effeithiau sefyllfaoedd newid hinsawdd ar seilwaith Network Rail a seilwaith y priffyrdd o gwmpas arfordir Cymru, a'r opsiynau addasu hirdymor, ar lefel genedlaethol Cymru.
47	Cynnal asesiad cenedlaethol rheolaidd o wytnwch seilwaith a chyfleustodau ledled Cymru, er mwyn rhoi sicrwydd o gynnydd cenedlaethol tuag at ragor o wytnwch rhag risgiau llifogydd ac erydu arfordirol.

Methodoleg Prosiect 10

Roedd Cynllun Cyflawni Adolygiad Llifogydd Arfordirol Cymru yn nodi y gellid ymgynghori â grwpiau seilwaith a chyfleustodau perthnasol i lywio Prosiect 10. Crëwyd holiaduron ar wahân, gan ddibynnu ar yr ymgynghoreion targed, ac fe'u rhoddwyd i'r grwpiau canlynol i gasglu adborth ar argymhellion 18 a 43 hyd 47:

- Pedwar Fforwm Lleol Cymru Gydnerth (Gogledd Cymru, De Cymru, Gwent a Dyfed Powys)
- 15 Awdurdod Rheoli Risg Arfordirol
- Grŵp Cyfleustodau Cymru sy'n cynnwys 18 o aelodau (British Telecom, Dŵr Dyffryn Dyfrdwy, Dŵr Cymru, pedwar Cyd-gysylltydd Fforymau Lleol Cymru Gydnerth, Inexus, Grid Cenedlaethol Cymru, West Utilities, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cymru, Severn Trent Water, Scottish Power, y Post Brenhinol, O2, Vodafone a Western Power)
- Gweithredwyr seilwaith Network Rail ac Asiantau Cefnffyrdd, sef Asiant Cefnffyrdd De Cymru ac Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Roedd y cyfraddau ymateb yn dda ar y cyfan: 100% o Fforymau Lleol Cymru Gydnerth, Awdurdodau Rheoli Risg a gweithredwyr seilwaith, a thros 40% o aelodau Grŵp Cyfleustodau Cymru. Rhoddwyd cyfle i holl aelodau Grŵp Cyfleustodau Cymru wneud sylwadau.

Mae'r holiaduron ar gael yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

Casglwyd tystiolaeth hefyd trwy gyfarfodydd (gyda Network Rail, Asiant Cefnffyrdd De Cymru, Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, a Llywodraeth Cymru – Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth) a thrwy adborth rhanddeiliaid yn sgil yr Adolygiad o Llifogydd Arfordirol Cymru: gweithdai'r Cynllun Cyflenwi.

Mae'r adran ganlynol yn crynhoi'r ymatebion a'r themâu allweddol ar gyfer pob argymhelliad. Mae'r adroddiad yn cloi gyda rhestr o gynigion ynglŷn â sut i wella gwytnwch seilwaith a chyfleustodau ymhellach rhag y risg o lifogydd ac erydu arfordirol ledled Cymru.

Crynodeb o ymatebion ymgynghoriad Prosiect 10

Mae'r adran ddilynol yn gosod pob un o argymhellion Prosiect 10 a chrynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad.

Argymhelliad 18:

Adolygu a nodi sut i wella cyfraniad gweithredwyr a rheolwyr seilwaith yn y broses rheoli digwyddiadau risg llifogydd arfordirol.

Cymerwyd y datganiad canlynol o Adolygiad o Lifogydd Arfordirol Cymru – Adroddiad Cam 2, sy'n tynnu sylw at y pryder ynglŷn â'r argymhelliad hwn:

'Mae angen gwella'r ffyrdd o gynnwys gweithredwyr a rheolwyr seilwaith yn y broses o reoli digwyddiadau (lle y bo'n briodol).'

Isod mae crynodeb o'r ymatebion a gafwyd gan bob grŵp targed ar gyfer Argymhelliad 18.

1. Fforymau Lleol Cymru Gydnerth – Crynodeb o ymatebion i Argymhelliad 18


Mae'r ymatebion a dderbyniwyd yn dynodi bod gan rai o ardaloedd Fforymau Lleol Cymru Gydnerth gysylltiadau cadarn â'r prif weithredwyr seilwaith a darparwyr cyfleustodau, tra bod ardaloedd eraill y Fforymau Lleol Cymru Gydnerth yn ei chael hi'n anodd cael yr ymgysylltiad maen nhw'n ei ddymuno neu ei angen.

Trosolwg o bwyntiau allweddol yr ymatebion:

- Mae anawsterau o ran prinder ymgysylltiad a chyfathrebu gyda Grŵp Cyfleustodau Cymru (ceir rhagor o wybodaeth am Grŵp Cyfleustodau Cymru ar dudalen 10 yr adroddiad hwn).
- Mae diffyg gofyniad cyfreithiol ar weithredwyr seilwaith a darparwyr cyfleustodau i gael eu cynnwys yn y broses rheoli digwyddiadau risg llifogydd arfordirol; fodd bynnag, mae cwmnïau dŵr yn Awdurdodau Rheoli Risg o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.
- Mae yna angen am ragor o ymgysylltiad yn lleol. Mae'r ymatebion wedi dangos bod mwy o ffocws ar lefel genedlaethol ar hyn o bryd.
- Mae angen hyfforddiant ymwybyddiaeth a chyswllt mwy rheolaidd rhwng partïon seilwaith a chyfleustodau, a'r holl Awdurdodau Rheoli Risg.

2. Awdurdodau Rheoli Risg – Crynodeb o ymatebion i Argymhelliad 18

Ydych chi o'r farn bod angen gwella cyfraniad cwmnïau seilwaith a gweithredwyr cyfleustodau yn y broses o reoli digwyddiadau lle mae perygl o lifogydd arfordirol? – Ydw neu Nac ydw



Allan o 15 o ymatebion, roedd 73% o'r farn bod angen i ddarparwyr seilwaith a gweithredwyr cyfleustodau gyfranogi'n fwy. Hoffai Awdurdodau Rheoli Risg sefydlu rhwydwaith cyswllt â darparwyr seilwaith a gweithredwyr cyfleustodau a rhannu gwybodaeth a data ar swyddogaethau a chyfrifoldebau.

Trosolwg o bwyntiau allweddol yr ymatebion:

- Dylai gweithredwyr seilwaith, darparwyr cyfleustodau ac Awdurdodau Rheoli Risg allu rhannu manylion cyswllt priodol.
- Dylid gwella'r trefniadau rhannu a'r ddealltwriaeth o brosesau arolygu a chynnal asedau seilwaith a chyfleustodau ar lefel leol, megis ar lefel awdurdodau lleol.
- Dylid cael cyd-ddealltwriaeth well ar lefel leol o asedau seilwaith a chyfleustodau sy'n agored i lifogydd.
- Dylai fod rhagor o gyfranogiad gan ddarparwyr seilwaith a gweithredwyr cyfleustodau ar gyfer cynllunio ymatebion i ddigwyddiadau.

Nodir bod y cysylltiadau presennol rhwng Awdurdodau Rheoli Risg a darparwyr seilwaith a gweithredwyr cyfleustodau wedi eu disgrifio fel rhai sydd rhwng gwael a rhesymol. Mae hyn yn rhywbeth y gellir ei wella drwy rannu data, cysylltiadau, rhaglenni gwaith, gwybodaeth am asedau, a thrwy gynnal rhagor o hyfforddiant ac ymarferion ar y cyd.

3. Grŵp Cyfleustodau Cymru – Crynodeb o ymatebion i Argymhelliad 18

Roedd aelodau'r Grŵp Cyfleustodau Cymru o'r farn y gellid gwella cyfraniad darparwyr seilwaith a gweithredwyr cyfleustodau yn y broses o reoli risg llifogydd.

Trosolwg o bwyntiau allweddol yr ymatebion:

- Nid yw'r rhan fwyaf o weithredwyr cyfleustodau yn Awdurdodau Rheoli Risg ac nid oes perthynas ffurfiol rhyngddynt ac Awdurdodau Rheoli Risg eraill, er mwyn annog cydweithio. Mae angen i fforwm gael ei sefydlu er mwyn helpu i ddatblygu dealltwriaeth rhwng gweithredwyr seilwaith, darparwyr cyfleustodau ac Awdurdodau Rheoli Risg.
- Dylid defnyddio data byw Cyfoeth Naturiol Cymru yn systemau'r darparwyr seilwaith a'r gweithredwyr cyfleustodau eu hunain, er mwyn rhoi mwy o eglurder am risg llifogydd drwy gynnig mwy o wybodaeth i'w sefydliadau.
- Dylid datblygu perthynas waith fwy effeithiol yn lleol a chenedlaethol.
- Dylai cynllun a weithredir yn ystod digwyddiad gael ei gyfathrebu'n well, yn ogystal â'r ymateb a ddisgwylir gan eraill.
- Dylai fod mwy o gyfleoedd i ddarparwyr seilwaith a gweithredwyr cyfleustodau rannu eu gwybodaeth gyda phartneriaid gwytnwch lleol.

- Dylai fod dealltwriaeth well ymhlith aelodau Grŵp Cyfleustodau Cymru o Ddatganiad Cyfarwyddyd Llifogydd dyddiol y Ganolfan Darogan Llifogydd.

Crynodeb ar gyfer Argymhelliad 18

Roedd yr holl grwpiau yr ymgynghorwyd â nhw yn teimlo bod angen gwneud rhagor, ac y gellid gwneud rhagor, i wella cyfraniad darparwyr seilwaith a gweithredwyr cyfleustodau yn y broses rheoli risg llifogydd, o flaengynllunio i ymateb i ddigwyddiadau. Awgrymwyd y dylai'r man cychwyn ar gyfer gwella cyfraniadau fod trefniadau gwell ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng sefydliadau.

Argymhelliad
43

Adolygu a gwneud argymhellion ynglŷn â sut gall awdurdodau rheoli risg a gweithredwyr seilwaith a chyfleustodau gydweithio'n weithredol mewn modd mwy effeithlon ac effeithiol. Dylai hyn ystyried amrywiaeth o drefniadau gweithio er mwyn sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau'n glir rhwng partneriaid proffesiynol ac ar gyfer cymunedau.

Cymerwyd y datganiad canlynol o Adolygiad o Llifogydd Arfordirol Cymru – Adroddiad Cam 2, sy'n tynnu sylw at y pryder ynglŷn â'r argymhelliad hwn:

'Mae angen gwneud mwy i alluogi awdurdodau rheoli risg a gweithredwyr seilwaith a chyfleustodau i gydweithio a rhyngweithio'n weithredol yn fwy effeithlon ac effeithiol.'

Isod mae crynodeb o'r ymatebion a gafwyd gan bob grŵp targed ar gyfer Argymhelliad 43.

1. Awdurdodau Rheoli Risg – Crynodeb o ymatebion i Argymhelliad 43

Roedd nifer o Awdurdodau Rheoli Risg yn teimlo y byddent yn hoffi cael rhagor o gyfranogiad gan ddarparwyr seilwaith a gweithredwyr cyfleustodau yn ystod y broses o reoli risg llifogydd ac arfordirol.

Trosolwg o bwyntiau allweddol yr ymatebion:

- Mae angen mwy o eglurder ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau ym mhrosesau rheoli digwyddiadau llifogydd.
- Mae angen perthynas waith well rhwng Awdurdodau Rheoli Risg a darparwyr seilwaith a gweithredwyr cyfleustodau.
- Mae angen mecanwaith gwell ar waith a fydd yn galluogi dolenni ar gyfer rhannu data rhwng sefydliadau.

2. Aelodau Grŵp Cyfleustodau Cymru – Crynodeb o ymatebion i Argymhelliad 43

Trosolwg o bwyntiau allweddol yr ymatebion:

- Dylai'r holl ddarparwyr seilwaith a gweithredwyr cyfleustodau dderbyn statws Awdurdod Rheoli Risg (ar gyfer rheoli risg llifogydd) ac nid y cwmnïau dŵr yn unig.
- Mae angen trefn well o rannu data ac o gyfathrebu rhwng Awdurdodau Rheoli Risg a darparwyr seilwaith a gweithredwyr cyfleustodau.
- Dylai fod perthynas gryfach rhwng Awdurdodau Rheoli Risg a darparwyr seilwaith a gweithredwyr cyfleustodau, ar lefel leol ac ar lefel genedlaethol.
- Dylai fod ymrwymiad blynyddol i ddatblygu a chynnal ymarferion llifogydd.
- Dylai fod digwyddiad blynyddol i annog ymwybyddiaeth o rolau a chyfrifoldebau.
- Dylai fod eglurder ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau, a dylai hyn gael ei gyhoeddi a'i rannu.

3. Darparwyr Seilwaith – Crynodeb o ymatebion i Argymhelliad 43

Mae Network Rail a Chyfoeth Naturiol Cymru yn datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth er mwyn hwyluso perthynas waith agosach a ddylai, yn y pen draw, arwain at gynllunio strategol a chyflenwi gweithredol mwy effeithiol gan y ddau sefydliad. Mae hyn yn rhywbeth a ellir ei ailadrodd rhwng sefydliadau eraill.

Mae'r asiantaethau cefnffyrdd eisoes wedi sefydlu perthynas waith dda â'r holl Awdurdodau Rheoli Risg. Mae hyn yn deillio o'r gorgyffwrdd dyddiol rhwng meysydd gwaith ac o'r cysylltiadau cyfathrebu sydd wedi eu hen sefydlu â'r holl bartïon.

Crynodeb ar gyfer Argymhelliad 43

Rhoddwyd amrywiaeth o argymhellion gan yr ymatebion ynglŷn â sut gall Awdurdodau Rheoli Risg, darparwyr seilwaith a gweithredwyr cyfleustodau gydweithio'n fwy effeithlon ac effeithiol. Y themâu a ddaeth i'r amlwg dro ar ôl tro oedd eglurder ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau, statws gweithredwyr seilwaith (e.e. Awdurdodau Rheoli Risg o bosibl) er mwyn gallu cynnwys y partneriaid hyn yn fwy effeithiol yn y broses digwyddiadau, trefniadau gweithio rhwng sefydliadau, mecanwaith i gadw a rhannu gwybodaeth, ac ymarferion neu hyfforddiant blynyddol a wneir ar y cyd.

Argymhelliad
44:

Adolygu a gwneud argymhellion os oes angen gwneud rhagor i alluogi gweithredwyr seilwaith a chyfleustodau i gydweithio'n effeithiol a chyfathrebu â'i gilydd ynglŷn â materion o ddiddordeb i'r ddwy ochr. Gallai hyn gynnwys adolygu rôl a chwmpas Grŵp Cyfleustodau Cymru ac opsiynau eraill.

Cymerwyd y datganiad canlynol o Adolygiad o Lifogydd Arfordirol Cymru – Adroddiad Cam 2, sy'n tynnu sylw at y pryder ynglŷn â'r argymhelliad hwn:

'Mae angen adolygu i weld a oes angen gwneud mwy i alluogi gweithredwyr seilwaith a chyfleustodau i gydweithio'n effeithiol a rhyngweithio â'i gilydd ar faterion sydd o ddiddordeb i'r naill ochr a'r llall.

Gallai hyn gynnwys adolygu rôl a chylch gwaith y Grŵp Cyfleustodau Cymru presennol i weld a oes angen eu hadolygu. Dylai hefyd ystyried opsiynau eraill, ychwanegol.'

Nod yr argymhelliad hwn oedd rhoi ystyriaeth i rôl, cylch gwaith ac effeithiolrwydd presennol Grŵp Cyfleustodau Cymru ac a oes angen gwneud mwy i alluogi gweithredwyr seilwaith a chyfleustodau i fod yn fwy effeithiol.

Mae cylch gorchwyl Grŵp Cyfleustodau Cymru yn nodi mai'r nod presennol yw: – *Dod â chyrrff cyfleustodau at ei gilydd mewn un grŵp dros Gymru gyfan er mwyn gweithio ynghyd i hyrwyddo cyfathrebu da ag ymatebwyr eraill, ac i wella parodrwydd yr holl gyfleustodau ar gyfer argyfwng.*

Isod mae crynodeb o'r ymatebion a gafwyd gan bob grŵp targed ar gyfer Argymhelliad 44.

1. Fforymau Lleol Cymru Gydnerth – Crynodeb o ymatebion i Argymhelliad 44

Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod angen eglurder ynglŷn â rôl a chylch gwaith Grŵp Cyfleustodau Cymru. Nodwyd hefyd bod angen ailfywiogi'r grŵp i gynnwys y sector trafndiaeth.

2. Awdurdodau Rheoli Risg – Crynodeb o ymatebion i Argymhelliad 44

Gofynnwyd i Awdurdodau Rheoli Risg a oeddent yn ymwybodol o Grŵp Cyfleustodau Cymru a pha mor effeithiol yw'r grŵp yn eu barn nhw. Nid oedd bron i 50% o ymatebwyr yn ymwybodol o rôl a chylch gwaith Grŵp Cyfleustodau Cymru. O'r rheiny a oedd yn ymwybodol o'r grŵp, roedd bron 90% o'r farn bod y grŵp yn aneffeithiol ar hyn o bryd.

Trosolwg o bwyntiau allweddol yr ymatebion:

- Roedd Awdurdodau Rheoli Risg ar y cyfan yn ansicr ynglŷn â sut mae Grŵp Cyfleustodau Cymru yn hyrwyddo cydweithio rhwng Awdurdodau Rheoli Risg, darparwyr seilwaith a gweithredwyr cyfleustodau.
- Nododd yr Awdurdodau Rheoli Risg nad oeddent yn ymwybodol iawn o Grŵp Cyfleustodau Cymru nac yn rhyngweithio llawer ag ef.
- Roedd nifer o Awdurdodau Rheoli Risg yn teimlo bod cylch gwaith Grŵp Cyfleustodau Cymru yn rhy eang, gan fod angen trafod a mynd i'r afael â llawer o faterion ar lefel leol yn hytrach nag ar lefel genedlaethol.

3. Aelodau Grŵp Cyfleustodau Cymru – Crynodeb o ymatebion i Argymhelliad 44

Cafwyd amrywiaeth o ymatebion gan aelodau Grŵp Cyfleustodau Cymru o ran effeithiolrwydd y grŵp, heb fod un thema glir yn dod i'r amlwg.

Trosolwg o bwyntiau allweddol yr ymatebion:

- Mae Grŵp Cyfleustodau Cymru wedi bod yn canolbwyntio'n bennaf ar gydweithio rhwng aelodau, sy'n golygu mai ychydig o ddealltwriaeth sydd o swyddogaethau Awdurdodau Rheoli Risg, a gall hyn gyfyngu ar y cydweithio.
- Cyfyng yw effeithiolrwydd y grŵp ar hyn o bryd, ac nid yw cynnal cyfarfodydd yn afreolaidd o gymorth yn hyn o beth.
- Gall Grŵp Cyfleustodau Cymru fod yn fforwm da os yw'r aelodau iawn gyda'i gilydd.
- Pan fydd Grŵp Cyfleustodau Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd, gall fod yn effeithiol iawn, ond ar hyn o bryd mae'n mynd ar i lawr. Cynigiwyd y dylai'r grŵp gyfarfod o leiaf pob chwe mis.

4. Darparwyr Seilwaith – Crynodeb o ymatebion i Argymhelliad 44

Mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd â'r pedwar corff (Network Rail, Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru, Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, ac Adran Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru), roedd yn amlwg nad oes dealltwriaeth o Grŵp Cyfleustodau Cymru. Serch hynny, mae Network Rail a'r asiantau cefnffyrdd yn siarad yn rheolaidd ag amryw o aelodau Grŵp Cyfleustodau Cymru am faterion sydd o ddiddordeb cyffredin.

[Crynodeb ar gyfer Argymhelliad 44](#)

Roedd ymatebion mewn perthynas â'r argymhelliad hwn yn canolbwyntio ar rôl a chylch gwaith Grŵp Cyfleustodau Cymru. Ychydig oedd ymwybyddiaeth y rheiny nad oedd yn rhan o Grŵp Cyfleustodau Cymru am rôl a chylch gwaith y grŵp. Roedd safbwyntiau cymysg oddi mewn i'r grŵp o ran effeithiolrwydd y grŵp. Y thema allweddol oedd yn dod i'r amlwg oedd bod Grŵp Cyfleustodau Cymru yn gallu bod yn fforwm da ar gyfer darparwyr cyfleustodau pan oedd yn gweithredu'n rheolaidd. Fodd bynnag, gan fod hyn ond yn cwmpasu darparwyr cyfleustodau, cydnabuwyd bod ei effeithiolrwydd wrth hwyluso cydweithio agos â darparwyr seilwaith eraill ac Awdurdodau Rheoli Risg yn gyfyng. Thema allweddol oedd yn dod i'r amlwg oedd bod angen adfywio Grŵp Cyfleustodau Cymru â chyfarfodydd rheolaidd, pwrpas o'r newydd, aelodaeth ehangach o bosibl, a lledaenu cofnodion a gwaith y grŵp yn fwy effeithiol.

**Argymhelliad
45:**

Annog a chefnogi'r gwaith o ddatblygu rhaglenni gwaith i gynyddu gwydnwch seilwaith ac asedau cyfleustodau. Mae'n rhaid i'r rhain gael eu halinio gyda gwaith cynllunio i addasu cymunedau lleol.

Adolygu lle bo'n briodol p'un a oes rhwystrau rheoleiddiol i atal y broses addasu hon, a nodi gwelliannau rheoleiddiol a allai helpu'r broses addasu.

Cymerwyd y datganiad canlynol o Adolygiad o Llifogydd Arfordirol Cymru – Adroddiad Cam 2, sy'n tynnu sylw at y pryder ynglŷn â'r argymhelliad hwn:

'Mae angen gosod hyn yng nghyd-destun fframwaith strategol mwy hirdymor gan ei alinio â chynlluniau addasu mwy cyffredinol y gymuned, yn ôl yr angen. Os oes "rhwystrau" neu "welliannau" rheoleiddio sydd naill ai'n rhwystro'r broses hon o addasu ar hyn o bryd, neu a allai ei helpu, dylid eu nodi.'

I fynd i'r afael â hyn, cynhaliwyd cyfarfodydd â Network Rail a'r ddau asiant cefnffyrdd yng Nghymru i weld pa raglenni gwaith sydd ar waith i gynyddu gwydnwch eu hasedau seilwaith a chan ganolbwyntio ar y risg llifogydd.

Ar hyn o bryd, mae Network Rail yn datblygu rhaglen waith i fynd i'r afael â chyflwr a gwydnwch y seilwaith rheilffordd arfordirol rhag llifogydd, yn seiliedig ar waith datblygu diweddar gan JBA Consulting a gomisiynwyd ganddynt. Ystyrir ail gyhoeddiad y Cynlluniau Rheoli Traethlin wrth weithredu'r dull newydd hwn.

Mae'r ddau asiant cefnffyrdd wedi datblygu rhaglenni gwella a chynnal a chadw peirianeg er mwyn cynyddu gwydnwch lleoliadau y mae'n hysbys eu bod nhw'n dioddef llifogydd dro ar ôl tro. Ni chafodd rhannau sylweddol o'r rhwydwaith cefnffyrdd eu dylunio yn ôl safonau draenio modern, gyda'r nod o ddarparu gwydnwch rhag llifogydd. Byddai angen buddsoddiad sylweddol iawn i ddiweddarau'r cyfan ohonynt erbyn hyn. Y rheswm dros hyn yw'r cyfyngiadau peirianegol, ariannol ac amgylcheddol, sy'n ffactorau cyfyngol allweddol.

Nid oes gan y naill asiant cefnffyrdd na'r llall ddogfen sydd wedi'i theilwra i adlewyrchu eu gwaith cynllunio gwydnwch. Fodd bynnag, mae gan y ddau asiant gynlluniau gwydnwch ar waith ar draws y rhwydwaith o gefnffyrdd ar gyfer cau heolydd, boed o achos llifogydd, damweiniau neu achosion eraill. Mae hyn, felly, yn rhoi elfen o wrynwch i'r rhwydwaith.

Ni roddwyd safbwyntiau gan unrhyw ymatebydd ar yr hyn a ystyrir ganddynt fel rhwystrau rheoleiddiol sy'n eu hatal rhag addasu wrth adeiladu gwydnwch yng nghyswllt llifogydd.

Aelodau Grŵp Cyfleustodau Cymru – enghreifftiau o raglenni gwaith i gynyddu gwydnwch rhag llifogydd. Sylwadau uniongyrchol yw'r rhain a dynnwyd o holiaduron a ddychwelwyd.

Dŵr Cymru	Bydd rhaglen fuddsoddi AMP6 Dŵr Cymru yn cynyddu gwydnwch asedau trin/cyflenwi dŵr ac asedau dŵr gwastraff yn wyneb llifogydd.
British Telecom	Mae BT yn dweud eu bod yn gweithredu dull rhagweithiol/ataliol, sy'n cael ei gefnogi gan allu da iawn i adweithio. Mae gwell hyfforddiant ac ymarfer, ynghyd ag adnoddau a phrosesau rheoli digwyddiadau gwell, oll yn amcanion allweddol.
Wales & West Utilities	Cynhaliwyd asesiadau effaith llifogydd ar safleoedd allweddol.
Western Power	Mae gan Western Power raglenni gwaith parhaus, fel y cytunwyd â'r rheoleiddiwr trydan (OFGEM). Mae'r gwaith hwn yn rhan o raglen waith ar gyfer 2015-23 (RIIO-ED1).
Grid Cenedlaethol	Mae'r Grid Cenedlaethol yn cynnal rhaglen fuddsoddi o waith lliniaru yn unol â chytundeb sector ynni a gynhyrchwyd gan y Gymdeithas Rhwydweithiau Ynni. Mae'r cytundeb hwn yn anelu at gyflwyno methodoleg ar sail risg sy'n rhoi cyfarwyddyd i gynyddu gwydnwch is-orsafoedd trydan i lefel darged gwydnwch, sy'n dderbyniol i gwsmeriaid, OFGEM a'r llywodraeth. Mae hyn yn rhoi ystyriaeth i asesiad cost/budd ar gyfer pob safle.

Crynodeb ar gyfer Argymhelliad 45

Mae gan y rhan fwyaf o ddarparwyr seilwaith a gweithredwyr cyfleustodau yng Nghymru raglenni gwaith, i ryw raddau, i helpu i gynyddu gwydnwch rhag llifogydd. Gellir creu cyfleoedd drwy fod darparwyr seilwaith, gweithredwyr cyfleustodau ac Awdurdodau Rheoli Risg yn cynllunio ymlaen llaw, ar y cyd. Byddai hyn yn galluogi buddiannau lluosog mwy eang o ran rhannu arferion gorau, wrth gynyddu hefyd y posibilrwydd o fod yn fwy effeithlon ac effeithiol.

**Argymhelliad
46:**

Adolygu a gwerthuso, ar lefel genedlaethol yng Nghymru, effeithiau senarios newid hinsawdd ar seilwaith Network Rail a seilwaith priffyrdd o gwmpas arfordir Cymru, a'r opsiynau addasu hirdymor.

Cymerwyd y datganiad canlynol o Adolygiad o Lifogydd Arfordirol Cymru – Adroddiad Cam 2, sy'n tynnu sylw at y pryder ynglŷn â'r argymhelliad hwn:

'Mewn llawer o leoliadau, mae asedau Network Rail a phriffyrdd yn rhan bwysig o seilwaith amddiffyn yr arfordir. Bydd cynlluniau hirdymor ar gyfer rhannau lleol o'r arfordir yn cael effaith sylweddol ar seilwaith Network Rail ac o bosibl ar seilwaith priffyrdd. Mae angen trafod ac ystyried yr effeithiau hyn yn genedlaethol oherwydd ni ellir eu datrys ar lefel leol yn unig.

Rhaid gosod cynlluniau addasu mwy hirdymor Network Rail a phriffyrdd o fewn y fframwaith strategol cyffredinol a'u halinio i gyd-fynd â chynlluniau addasu cymunedau lleol yn ôl yr angen.'

Mae'r argymhelliad hwn yn canolbwyntio ar newid hinsawdd a'r effeithiau ar seilwaith Network Rail a phriffyrdd o gwmpas arfordir Cymru.

Mae Network Rail wedi creu cynlluniau addasu ar gyfer gwytnwch tywydd a newid hinsawdd ar gyfer ei holl lwybrau, gan gynnwys ar gyfer Llwybr Cymru yn benodol. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys gweithrediadau yng Nghyfnod Rheoli 5 (CP5) 2014 hyd 2019, ac yn anelu at fynd i'r afael ag unrhyw wendidau i weithrediadau drwy nodi lle gallai camau gweithredu ychwanegol wneud rhagor i wella gwytnwch rhag y tywydd a newid hinsawdd. Mae'r cynlluniau hyn ar gael yma <https://www.networkrail.co.uk/publications/weather-and-climate-change-resilience/>

Mae gwaith datblygu diweddar Network Rail ar ei gynlluniau rheoli asedau arfordirol ac aberol yn ymdrin â'r effaith a ragwelir ar asedau arfordirol yn sgil cynnydd newid hinsawdd yn lefel y môr. Mae cynlluniau rheoli tymor byr a hirdymor yn cael eu datblygu ar hyn o bryd er mwyn deall a blaenoriaethu'r holl strwythurau arfordirol sy'n eiddo i Network Rail. Bydd hyn yn sicrhau bod dilyniant i ddiogelwch gweithredol ac yn lleihau'r effaith negyddol ar berfformiad a ddaw yn sgil nifer gynyddol o ddigwyddiadau storm.

Ar gyfer yr asiantau cefnffyrdd, mae cynlluniau dylunio newydd ar gyfer gwelliannau hirdymor yn rhoi ystyriaeth i newid hinsawdd wrth ddylunio systemau draenio a'r drefn o alinio. Rhoddir lle ar gyfer cynnydd newid hinsawdd ar ben y lefelau amddiffyn arferol a ystyrir ar gyfer yr ased draenio sy'n cael ei ddylunio. Er y gallai caniatáu am lifau llifogydd, e.e. mewn capasiti cylfatiau, fod yn fuddiol ar gyfer cyfaint dŵr uwch, gallai gael canlyniadau annymunol hefyd y mae angen eu hystyried yn ystod y cyfnod dylunio.

Crynodeb ar gyfer Argymhelliad 46

Mae Network Rail a'r asiantau cefnffyrdd yn adolygu effaith sefyllfaoedd newid hinsawdd ar eu seilwaith o gwmpas arfordir Cymru. Mae'r ddau hefyd yn ystyried opsiynau addasu hirdymor i amddiffyn eu rhwydweithiau yn y dyfodol.

Argymhelliad
47:

Cynnal asesiad cenedlaethol cyfnodol o wydnwch seilwaith a chyfleustodau ledled Cymru, er mwyn rhoi sicrwydd o gynnydd cenedlaethol tuag at lifogydd arfordirol a risgiau erydu.

Cymerwyd y datganiad canlynol o Adolygiad o Lifogydd Arfordirol Cymru – Adroddiad Cam 2, sy'n tynnu sylw at y pryder ynglŷn â'r argymhelliad hwn:

'Dylai hyn ystyried asedau a gwasanaethau o bwysigrwydd lleol ac o bwysigrwydd cenedlaethol. Dylai hefyd ystyried seilwaith sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at reoli risg llifogydd ac erydu arfordirol neu a allai gyfrannu at risg llifogydd. Dylai hefyd ystyried asedau a gwasanaethau eraill y mae risgiau llifogydd ac erydu'n effeithio arnynt, a'r effeithiau canlyniadol ar gymunedau'n lleol ac mewn mannau eraill.

Dylid adolygu hyn yn rheolaidd i helpu i roi sicrwydd i'r cyhoedd o gynnydd tuag at fwy o wydnwch.'

Nod yr argymhelliad hwn yw dangos bod gwydnwch, fel cenedl, i beryglon llifogydd yn gwella. Mae'r rhan fwyaf o weithredwyr yn cynllunio asesiadau mewn cylchdroeon (er enghraifft, CP5 Network Rail), felly bydd angen i unrhyw asesiad blynyddol ystyried hyn a meddu ar raddfa gyffredin i ddangos lefel y gwelliant a'r gwydnwch.

Gwnaed astudiaeth ddesg ar-lein i asesu tystiolaeth o gynlluniau gwydnwch y prif ddarparwyr seilwaith a gweithredwyr cyfleustodau yng Nghymru ar gyfer newid hinsawdd a risg llifogydd a/neu erydu. Nodwyd y canlyniadau ar daenlen, sydd ar gael yn Atodiad 2.

Crynodeb ar gyfer Argymhelliad 47

Er mwyn dangos cynnydd tuag at ragor o wydnwch rhag risgiau llifogydd ac erydu arfordirol, dylid cynnal yr asesiad hwn yn flynyddol gyda chyfraniadau gan sefydliadau i sicrhau bod cynnydd yn digwydd. Dylai hyn gael ei reoli a'i gydlynw ar lefel Cymru gyfan. Dylid rhannu canlyniadau unrhyw asesiad blynyddol â'r cyhoedd i dynnu sylw at unrhyw gynnydd o ran gwydnwch rhag risgiau llifogydd ac erydu.

Casgliadau Prosiect 10

Y brif thema a ddaeth i'r amlwg wrth ymwneud ag eraill ar Brosiect 10 oedd bod dyhead ac angen am gydweithio gwell rhwng Awdurdodau Rheoli Risg a darparwyr seilwaith a gweithredwyr cyfleustodau, ar gyfer busnes beunyddiol ac er mwyn ymateb i ddigwyddiadau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol. Mae tri chynnig isod y gellir eu datblygu gan Awdurdodau Rheoli Risg, Fforymau Lleol Cymru Gydnerth, Llywodraeth Cymru, darparwyr seilwaith a gweithredwyr cyfleustodau, er mwyn cyflenwi argymhellion Adolygiad o Lifogydd Arfordirol Cymru, ac i wella gwytnwch seilwaith rhag llifogydd yng Nghymru yn awr ac yn y dyfodol:

- Mae angen i Grŵp Cyfleustodau Cymru gael ei adfywio, efallai fel Grŵp Seilwaith Cymru. Mae hyn o ganlyniad i'r ffaith nad oes llawer o gynrychiolaeth gan weithredwyr seilwaith yng Nghymru o fewn Grŵp Cyfleustodau Cymru. Byddai'n rhaid i'r grŵp yn ei ffurf newydd fel Grŵp Seilwaith Cymru gynnwys aelodau newydd megis Network Rail a'r Asiantau Cefnffyrdd. Gwahoddir cynrychiolydd awdurdodau lleol hefyd i fynychu ar ran pob un o'r 22 o awdurdodau lleol ledled Cymru. Bydd yr aelodaeth ehangach yn helpu i feithrin gwell dealltwriaeth a pherthnasau gwaith gwell rhwng sefydliadau. Mae angen i'r adnewyddiad gael ei gefnogi gan gadeirydd newydd a etholir o fewn y grŵp (mae wedi'i gadeirio ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru, ond byddai'n well peidio â chael aelod o Lywodraeth Cymru fel cadeirydd), gyda Llywodraeth Cymru'n ymgymryd â swyddogaeth gefnogol drwy roi cymorth gweinyddol ac ysgrifenyddol i'r grŵp. Gallai Grŵp Seilwaith Cymru ymgymryd â'r cyfrifoldeb i gynnal asesiad blynyddol o wytnwch seilwaith a chyfleustodau rhag risgiau llifogydd ac erydu arfordirol, er mwyn dangos cynnydd tuag at Gymru fwy gwydn. Dylid adrodd am hyn i Adran Gwytnwch Llywodraeth Cymru yn flynyddol, er tystiolaeth.
- Dylai Grŵp Dysgu a Datblygu Cymru (rhan o Lywodraeth Cymru) brofi strategaethau a datblygu mwy o gysylltiadau rhwng sefydliadau ar lefel leol a chenedlaethol er mwyn datblygu rhaglen strwythuredig o ymarferion ymateb i ddigwyddiadau. Bydd hyn hefyd o gymorth i ddynodi bylchau neu pa welliannau sydd eu hangen.
- Dylid ymchwilio i ResilienceDirect (system ar-lein ddiogel sy'n ei wneud yn bosibl rhannu gwybodaeth a data) fel opsiwn er mwyn i'r holl bartïon rannu a chadw gwybodaeth ar y lefel 'sensitif swyddogol'.

Atodiad 1 – Holiaduron ymgysylltu Prosiect 10

Holiadur Fforwm Lleol Cymru Gydnerth

Q1- Pa berchnogion a gweithredwyr seilwaith a chyfleustodau sy'n mynychu cyfarfodydd rheolaidd Fforwm Lleol Cymru Gydnerth?

Q2- Pa berchnogion a gweithredwyr seilwaith a chyfleustodau sydd heb eu cynnwys yng nghyfarfodydd rheolaidd Fforwm Lleol Cymru Gydnerth?

Q3- O blith y rhai a ddynodwyd gennych yn eich ateb i'r cwestiwn blaenorol, pa berchnogion a gweithredwyr seilwaith a chyfleustodau fyddai'r rhai pwysicaf i fynychu cyfarfodydd rheolaidd Fforwm Lleol Cymru Gydnerth?

Q4- Yn ystod digwyddiad, pa berchnogion a gweithredwyr seilwaith a chyfleustodau sy'n mynychu ac yn cyfrannu at yr ymateb sifil (hynny yw, yn mynychu Trefn Reoli Aur/Arian/Efydd)?

Q5- Yn ystod digwyddiad, pa wybodaeth a rennir gan berchnogion a gweithredwyr seilwaith a chyfleustodau?

Q6- Yn gyffredinol, mewn digwyddiad, a yw gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn modd amserol ac a yw o ddefnydd ar gyfer ymateb i ddigwyddiad?

Q7- Yn eich barn chi, pa berchnogion a gweithredwyr seilwaith a chyfleustodau fyddai'r rhai pwysicaf i gyfrannu at ddigwyddiad?

Q7- Yn eich barn chi, beth y gellir ei wneud i wella cyfraniad gan berchnogion a gweithredwyr seilwaith a chyfleustodau?

Q9- Oes gennych chi unrhyw gynigion eraill neu wybodaeth berthnasol?

Holiadur Grŵp Cyfleustodau Cymru

Q1- A ellir gwneud mwy i helpu Awdurdodau Rheoli Risg, cwmnïau seilwaith a gweithredwyr cyfleustodau i gydweithio'n fwy effeithlon ac effeithiol â'i gilydd yn ystod busnes beunyddiol, neu yn fwy penodol, yn ystod y broses o reoli digwyddiadau lle mae perygl o lifogydd arfordirol?

Q2- Pa drefniadau gweithio sydd ar waith ar hyn o bryd sy'n annog ac yn helpu Awdurdodau Rheoli Risg, cwmnïau seilwaith a gweithredwyr cyfleustodau i gydweithio yn ystod gwaith beunyddiol, neu yn fwy penodol, yn ystod y broses o reoli digwyddiadau lle mae perygl o lifogydd arfordirol?

Q3- Pa drefniadau gweithio newydd neu adolygedig sydd eu hangen i annog a helpu Awdurdodau Rheoli Risg, cwmnïau seilwaith a gweithredwyr cyfleustodau i gydweithio'n well yn ystod busnes beunyddiol, neu yn weithredol drwy'r broses o reoli digwyddiadau lle mae perygl o lifogydd arfordirol?

Q4 - Beth a ellir ei wneud i wneud rolau a chyfrifoldebau'n fwy eglur rhwng partneriaid proffesiynol?

Q5- Pa mor effeithiol, yn eich barn chi, yw Grŵp Cyfleustodau Cymru wrth annog cydweithio rhwng Awdurdodau Rheoli Risg, cwmnïau seilwaith a gweithredwyr cyfleustodau?

Q6- A ydych yn teimlo y gall rôl Grŵp Cyfleustodau Cymru gael ei hystyngiadau er mwyn hwyluso cydweithio gwell rhwng Awdurdodau Rheoli Risg, cwmnïau seilwaith a gweithredwyr cyfleustodau?

Q7- A oes rhwystrau rheoleiddiol sy'n atal cydweithio effeithiol ac effeithlon rhwng Awdurdodau Rheoli Risg, cwmnïau seilwaith a gweithredwyr cyfleustodau, a gyda sefydliadau eraill?

Q8- A ydych yn cynnal rhaglenni gwaith er mwyn cynyddu gwytnwch eich asedau o ran seilwaith neu gyfleustodau?

Cwestiynau Asiantau Cefnffyrdd a Network Rail

Q1- Ydych chi o'r farn bod angen cyfraniad gwell gan weithredwyr seilwaith a chyfleustodau eraill, ac Awdurdodau Rheoli Risg, ar gyfer gwaith arfordirol beunyddiol a/neu yn ystod y broses

o reoli digwyddiadau lle mae perygl o lifogydd arfordirol? (Os nad ydych yn cael eich effeithio gan lifogydd arfordirol, atebwch am lifogydd afonol os gwelwch yn dda.)

Q2- Pa drefniadau gweithio sydd ar waith ar hyn o bryd sy'n annog ac yn helpu Awdurdodau Rheoli Risg, cwmnïau seilwaith a gweithredwyr cyfleustodau i gydweithio yn ystod gwaith beunyddiol, a/neu yn ystod y broses o reoli digwyddiadau lle mae perygl o lifogydd arfordirol? (Os nad ydych yn cael eich effeithio gan lifogydd arfordirol, atebwch am lifogydd afonol os gwelwch yn dda.)

Q3- Pa drefniadau gweithio newydd neu adolygedig sydd eu hangen, yn eich barn chi, i wneud rolau a chyfrifoldebau'n fwy eglur rhwng partneriaid proffesiynol ac ar gyfer cymunedau, er mwyn hwyluso gwell rhyngweithio ar faterion sydd o ddiddordeb cyffredin?

Q4- A ddatblygwyd eich rhaglen waith i gynyddu gwytnwch ac i gyd-fynd â chynlluniau addasiad y gymuned leol? Os na wnaed, a oes unrhyw rwystrau sy'n cyfyngu ar allu eich sefydliad i wneud hyn?

Q5- A yw eich sefydliad yn asesu/cynllunio ar gyfer effeithiau sefyllfaoedd newid hinsawdd, o ran yr opsiynau tymor byr a hirdymor? Ymhelaethwch y tu hwnt i ateb 'ydy' neu 'nac ydy'.

Q6- A yw eich sefydliad yn gweithio'n agos ag Awdurdodau Rheoli Risg a gweithredwyr seilwaith a chyfleustodau eraill? Os ydyw, ymhelaethwch am paham a sut mae'n gwneud hynny.

Q7- Petai eich sefydliad yn gweithio'n nes ag Awdurdodau Rheoli Risg a gweithredwyr seilwaith a chyfleustodau, pa rai fyddech chi yn eu hystyried fel blaenoriaeth ar gyfer bod yn fwy effeithiol ac effeithlon? Ymhelaethwch am paham a sut y gellir gwneud hyn.

Holiadur Awdurdodau Rheoli Risg

Q1- Ydych chi o'r farn bod angen cyfraniad gwell gan gwmnïau seilwaith a gweithredwyr cyfleustodau ar gyfer gwaith arfordirol beunyddiol a/neu yn ystod y broses o reoli digwyddiadau lle mae perygl o lifogydd arfordirol?

Q2- Pa drefniadau gweithio sydd ar waith ar hyn o bryd sy'n annog ac yn helpu Awdurdodau Rheoli Risg, cwmnïau seilwaith a gweithredwyr cyfleustodau i gydweithio yn ystod gwaith beunyddiol arfordirol a/neu yn ystod y broses o reoli digwyddiadau lle mae perygl o lifogydd arfordirol?

Q3- Pa drefniadau gweithio newydd neu adolygedig sydd eu hangen, yn eich barn chi, i wneud rolau a chyfrifoldebau'n fwy eglur rhwng partneriaid proffesiynol ac ar gyfer cymunedau?

Q4- Ydych chi'n ymwybodol o Grŵp Cyfleustodau Cymru?

Atodiad 2 – Aseidi gwynwch seilwaith Prosiect 10

Enw'r sefydliad	Gwefan	Dolenni i Gyfoeth Naturiol Cymru ar wefannau	Rhif ffôn cyswllt	Rhif ffôn cyswllt mewn argyfwng	Hyperddolenni i wynwch llifogydd	Mesurau gwynwch llifogydd (crynodeb byr)	Hyperddolenni i ystyriaethau newid hinsawdd	Ystyriaethau newid hinsawdd (crynodeb byr)
BT	www.btplc.com/	Dolenni rhesymol drwy brosiectau unigol	0207 356 5000	0843 479 0295	www.btplc.com/civilresilience/index.htm	Mae BT yn cyflawni hyn drwy ei Dîm Ymateb mewn Argyfwng – carfan o bedwar deg o beirianwyr medrus iawn sy'n meddu ar gyfarpar llawn. Gwirfoddolwyr ydynt ar y cyfan, ac maen nhw ar alw yn barhaol ac yn barod i ymateb i argyfyngau ledled y byd.	www.btplc.com/Betterfuture/news/cdp.htm	Maen nhw wedi cydnabod y newid yn yr hinsawdd ac wedi rhoi buddsoddiad ar waith.
Dŵr Cymru	www.dwrcymru.com/	Da iawn – dolenni i wefannau Cyfoeth Naturiol Cymru fel rheoleiddiwr	Gwasanaethau carthffosiaeth ac argyfyngau – 0800 085 3968	Gwasanaethau dŵr ac argyfyngau – 0800 052 0130		Mae Dŵr Cymru wedi nodi'r angen i edrych ar wynwch asedau rhag llifogydd, a drafodir yn yr hyperddolen.	www.dwrcymru.com/en/Environment/PREPARED-Enabling-Change.aspx	Dŵr Cymru yw'r unig gwmni dŵr a charthffosiaeth yn y DU sy'n cael ei gynrychioli yn PREPARED, prosiect Ewropeidd €7m sy'n edrych ar addasu i newid hinsawdd.
Dŵr Dyffryn Dyfrdwy	www.deevallwater.co.uk/	Da iawn – dolenni i wefannau Cyfoeth Naturiol Cymru fel rheoleiddiwr	Wrecsam (01978) 846946	Wrecsam (01978) 846946		Gwynwch llifogydd – Cafodd y safleoedd yr ystyriwyd eu bod mewn perygl o ddiodeff llifogydd eu hamddiffyn yn ystod 2014-15 ac nid ydym wedi cynnwys unrhyw welliannau pellach i amddiffynfeydd llifogydd yn ystod 2015-2020.	Dim dolenni	Dim sôn am newid hinsawdd
Severn Trent	www.stwater.co.uk/	Dolenni sâl iawn ar y wefan i Gyfoeth Naturiol Cymru	0800 783 4444	0800 783 4444	Ni welwyd dolenni – mae rhai prosiectau yn adlewyrchu'r ymdrech i leihau llifogydd ond nid oes strategaeth fusnes gyffredinol.	Ni welwyd dolenni – mae rhai prosiectau yn adlewyrchu'r ymdrech i leihau llifogydd ond nid oes strategaeth fusnes gyffredinol.	www.stwater.co.uk/about-us/environment/climate-change/	Dolenni da am newid hinsawdd ac mae eu cynllun busnes yn ei gwmpasu.
Scottish Power	www.scottishpower.co.uk/	Dolenni sâl iawn ar y wefan i Gyfoeth Naturiol Cymru	0800 027 0072 o linell sefydlog / 0345 270 0700 o ffôn symudol	0800 001 5400 Llinell sefydlog / 03301 010400 Ffôn symudol	Ni welwyd dolenni – mae rhai prosiectau yn adlewyrchu'r ymdrech i leihau llifogydd ond nid oes strategaeth fusnes gyffredinol.	Ni welwyd dolenni – mae rhai prosiectau yn adlewyrchu'r ymdrech i leihau llifogydd ond nid oes strategaeth fusnes gyffredinol.	www.scottishpower.com/news/pages/scottishpower_welcomes_the_newly_created_department_of_energy_and_climate_change.asp www.scottishpower.com/news/pages/scottishpower_join_2020_delivery_group_on_climate_change.asp	Mae Scottish Power wedi creu adran fewnol i ddelio â newid hinsawdd. Fodd bynnag, nid oes dogfen ar y wefan hyd yma.

Western Power	www.westernpower.co.uk/	Sâl iawn – dim dolenni ar y wefan i Gyfoeth Naturiol Cymru	De Cymru – 0845 6013341	0800 6783 105 neu 0800 052 0400 Llinell sefydlog / De Cymru 0330 123 5002 Ffôn symudol	www.westernpower.co.uk/docs/power-cuts/WPD-Flood-leaflet.aspx	Nid oes cynllun gwytnwch ar y wefan.	www.westernpower.co.uk/docs/social-responsibility/Environment/Climate-Change-Adaptation.aspx	Yn dangos ymroddiad. Ond nid oes strategaeth wedi'i nodi'n glir.
Inexus	www.gtc-uk.co.uk/	Sâl iawn – dim dolenni ar y wefan i Gyfoeth Naturiol Cymru	01359 243311		Ni welwyd dolenni – nid oes strategaeth fusnes gyffredinol.	Ni welwyd dolenni – nid oes strategaeth fusnes gyffredinol.	Dim dolenni	Ni welwyd gwybodaeth ar y wefan.
O2	www.o2.co.uk/	Dim dolenni	Rhif cyffredinol gydag oriau agor cyfyngedig – 034448090202	protect@o2.com	Ni welwyd dolenni – ni welwyd strategaeth fusnes gyffredinol ar y wefan.	Ni welwyd dolenni – ni welwyd strategaeth fusnes gyffredinol ar y wefan.	www.o2.co.uk/thinkbig/blueprint/commitments	Nid oes prif dudalen sy'n ymdrin â newid hinsawdd, ond maen nhw wedi cydnabod yr angen i addasu.
Vodafone	www.vodafone.co.uk/	Dim dolenni	Rhif cyffredinol gydag oriau agor cyfyngedig – 0333 3046464		Ni welwyd dolenni – ni welwyd strategaeth fusnes gyffredinol ar y wefan.	Ni welwyd dolenni – ni welwyd strategaeth fusnes gyffredinol ar y wefan.	Dim dolen	Nid oes cynllun ar gyfer newid hinsawdd wedi'i osod ar y wefan.
Wales & West Utilities (nwy)	www.wwutilities.co.uk/	Dim dolenni	Ymholiadau cyffredinol gydag oriau agor cyfyngedig 0800 912 29 99		Ni welwyd dolenni – ni welwyd strategaeth fusnes gyffredinol ar y wefan.	Ni welwyd dolenni – ni welwyd strategaeth fusnes gyffredinol ar y wefan.		Ychydig iawn a ddywedir am newid hinsawdd ar y wefan.
Post Brenhinol	www.royalmail.com/	Dim dolenni	Ymholiadau cyffredinol gydag oriau agor cyfyngedig 03457 740 740		Ni welwyd dolenni – ni welwyd strategaeth fusnes gyffredinol ar y wefan.	Ni welwyd dolenni – ni welwyd strategaeth fusnes gyffredinol ar y wefan.	www.royalmailgroup.com/sites/default/files/RMG%20CDP%20Response%202014.pdf	Ychydig iawn a welwyd ar wahân i ddolen ar wefan wahanol.
Grid Cenedlaethol	www.nationalgrid.com/uk/	Da iawn – dolenni i wefannau Cyfoeth Naturiol Cymru fel rheoleiddiwr	Ymholiadau cyffredinol gydag oriau agor cyfyngedig – 0845 835 1111		www.nationalgridconnect.com/staying-high-and-dry/	Yn ymwybodol iawn o wytnwch llifogydd ac wedi cymryd camau breision i fod yn barod ar gyfer llifogydd. Wedi dynodi y bydd buddsoddiad pellach.		Gwybodaeth dda iawn. Yn mynd i fanylder mawr.
Network Rail	www.networkrail.co.uk/	Da iawn – dolenni i wefannau Cyfoeth Naturiol Cymru fel rheoleiddiwr	08457 48 49 50	08457 11 41 41	www.networkrail.co.uk/western-route-wrcca-plan.pdf	Yn ymwybodol iawn o wytnwch llifogydd ac wedi cymryd camau breision i fod yn barod ar gyfer llifogydd. Wedi dynodi y bydd buddsoddiad pellach.	www.networkrail.co.uk/wales-route-wrcca-plan.pdf	Gwybodaeth dda iawn ar y wefan. Yn ogystal, mae'n mynd i fanylder da.
Asiantaeth Cefnffyrdd – Gogledd/Canolbarth	www.nmwtra.org.uk/	Dim dolenni	01286 685 186	0300 123 1213	Ni welwyd dolenni – ni welwyd strategaeth fusnes gyffredinol ar y wefan.	Ni welwyd dolenni – ni welwyd strategaeth fusnes gyffredinol ar y wefan.	Dim dolenni	Dim gwybodaeth ar y wefan
Asiantaeth Cefnffyrdd – De	www.swtra.co.uk/	Dim dolenni	0300 123 1213	0300 123 1213	Ni welwyd dolenni – ni welwyd strategaeth fusnes gyffredinol ar y wefan.	Ni welwyd dolenni – ni welwyd strategaeth fusnes gyffredinol ar y wefan.	Dim dolenni	Dim gwybodaeth ar y wefan